**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu – Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 17 Hydref 2017 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd T J Hennegan (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | C A Holley | G J Tanner |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sue Reed | Rheolwr Datblygu Hamdden Cymunedol |
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): E W Fitzgerald a/ac L James

---

1 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

3 **Adroddiad Effaith Ymchwiliad Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy ac adroddiad dilynol**

- Daeth Sue Reed, Rheolwr Datblygu Hamdden Cymunedol, i roi'r diweddaraf i'r panel am y gwaith a wnaed ers yr Ymchwiliad Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy
- Mae rôl Sue yn cynnwys cefnogi gwirfoddolwyr yn y gymuned i sefydlu grwpiau i hwyluso rheoli a chynnal a chadw mannau agored ac adeiladau cymunedol. Mae 41 o adeiladau cymunedol yn cael eu cynnal yn Abertawe.
- Mae'r holl argymhellion a gynigiwyd ar ôl yr Ymchwiliad Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy wedi'u cwblhau.
- Mae'r adran wedi lleihau o 9 aelod o staff i 3, ond yr un yw maint yr anghenion gan fod yr adran yn gyfrifol am fannau agored a pharciau ac adeiladau cymunedol, ac yn cefnogi grwpiau presennol ac unrhyw rai newydd sydd am sefydlu eu hunain.

- Rôl y swyddogion yw cefnogi gwirfoddolwyr i gynnal prosiectau yn eu cymunedau gyda materion megis asesiadau risg, gwybodaeth am iechyd a diogelwch, dogfennaeth briodol a chanllawiau ar sefydlu grwpiau.
- Datblygwyd nifer o ganllawiau cefnogi, cyfansoddiadau enghreifftiol a phecynnau gwybodaeth gan yr adran, ac maent ar gael am ddim i'r gymuned.
- Yn ogystal â'r canllawiau, gall gwirfoddolwyr cymunedol gael mynediad i hyfforddiant megis Iechyd a Diogelwch a chefnogaeth mewn perthynas â hylendid bwyd ar gyfer digwyddiadau fel boreau coffi.
- Mae gan Gyngor Abertawe berthynas wych â'r gwirfoddolwyr mae'n eu cefnogi.
- Bu newid yn y ffordd y caiff gweithredu yn y gymuned ei fesur. Mae'n anodd iawn ei gymharu â dangosydd perfformiad allweddol am ei fod yn broses a gefnogir gan wirfoddolwyr yn hytrach na gwasanaeth. Nid oes awydd i roi pwysau ar wirfoddolwyr drwy fynnu eu bod yn cyflawni mesurau perfformiad.
- Mae benthyciadau am ddim ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol. Gall y benthyciadau hyn gynorthwyo gydag amrywiaeth o bethau. Mae angen cyflwyno cais i'r cyngor am y benthyciadau, a cheir proses ymgeisio lem sy'n cynnwys yr adrannau cyfreithiol a chyllid.
- Nid yw'r canolfannau cymunedol yn cael unrhyw gymorth ariannol gan y cyngor. Mae unrhyw grantiau roeddent yn arfer eu derbyn yn flaenorol a oedd yn helpu gyda chostau tanwydd bellach wedi dod i ben. Mae hyn yn golygu bod angen i'r holl ganolfannau ariannu eu hunain yn gyfan gwbl. Nid oes cyfradd arbennig ar gael 'chwaith i weithwyr neu aelodau etholedig y cyngor. Mae'n rhaid i bawb dalu i rentu'r canolfannau cymunedol.

4 **Y Panel i drafod cynnydd ac i gytuno ar adborth**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am

**Cadeirydd**